

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
Dyddiad / Date:	3 Ionawr 2020
Pwnc / Subject:	Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cyflwyniad

Mae Estyn yn cefnogi'n fras y ddeddfwriaeth arfaethedig fel y'i hamlinellir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Mae Estyn yn croesawu'r darpariaethau ar gyfer ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed oherwydd credwn y bydd hyn yn galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n well at eu cymunedau lleol trwy drafodaeth wleidyddol gadarnhaol a defnyddio'u pleidlais. Hefyd, mae Estyn o'r farn y bydd newid o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar gwricwlwm yr ysgol, a'i le yn paratoi pobl ifanc i ymgymryd â'u hawliau fel dinasyddion sydd â'r hawl i bleidleisio. Bydd hyn yn helpu i wireddu'r pedwar diben yng Nghwricwlwm drafft i Gymru 2022 i ddatblygu plant a phobl ifanc yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Croesewir y darpariaethau sy'n galluogi Llywodraeth Leol ac awdurdodau lleol i sefydlu cydbwyllgorau er mwyn cyflwyno gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon, ac mae Estyn yn disgwyl i'r darpariaethau hyn arwain at gydweithio mwy effeithiol ar lefel awdurdod lleol, a phartneriaethau sydd wedi'u sefydlu'n fwy cadarn, gyda dibenion cliriach, a mesurau atebolrwydd mwy effeithiol.

Mae darpariaethau ar gyfer system newydd er perfformiad a llywodraethu mewn awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n glir ar brosesau hunanasesu, a ddylai alluogi awdurdodau lleol i gymryd camau hunanreoleiddio a gwella mwy effeithiol.

Hefyd, mae Estyn yn croesawu'r cynigion am weithio a chydweithredu agosach rhwng yr arolygiaethau a chyrrff rheoleiddio, a'r cynigion am gyfnwid gwybodaeth rhwng y rhain a Llywodraeth Cymru.

Gellid cryfhau'r Bil ymhellach drwy:

- nodi'r angen i ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc fel is-adran o'r cyhoedd yn Rhan 3
- diffinio'n glir pa swyddogaethau y gellid eu trosglwyddo yn gysylltiedig â gwella addysg
- cynnwys cyrff arolygu a rheoleiddio perthnasol fel ymgylgoreion statudol wrth lunio rheoliadau i greu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Rhan 1 – Etholiadau

Mae Estyn yn croesawu'r cynnig i ymestyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Mae'r cynnig hwn yn cydnabod gallu'r bobl ifanc hyn i ddeall eu cymuned leol a'i phroblemau yn iawn ac i chwarae rhan lawnach mewn bywyd gwleidyddol lleol. Hefyd, mae'r cynnig yn cydnabod hawl, o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, y bobl ifanc hyn sy'n aeddfedu i gael dweud eu dweud a dylanwadu ar benderfyniadau a wneir sy'n effeithio arnynt, a'r cyfle iddynt wneud hynny trwy'r blwch pleidleisio.

Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried goblygiadau'r cynnig hwn i'r cwricwlwm ysgolion, ac mae angen iddi gryfhau ei harweiniad presennol i ysgolion ar addysg i ddisgyblion ym maes dinasyddiaeth. Er enghraifft, os caiff y cynnig hwn ei fabwysiadu, bydd disgyblion o 14 oed ymlaen yn cael eu hannog i bleidleisio o 16 oed ymlaen. Mae disgwyliadau'r cwricwlwm fel y'u hamlinellir yn arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) [Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru](#), yn gofyn am gynnwys dinasyddiaeth yn y cwricwlwm. Bydd ffocws o'r fath yn helpu i wireddu'r pedwar diben yng Nghwricwlwm drafft i Gymru 2022 i ddatblygu plant a phobl ifanc yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Rhan 2 – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Dim sylw gan Estyn

Rhan 3 – Hybu Mynediad At Lywodraeth Leol

Mae Estyn yn croesawu'r cynigion a amlinellir yn Rhan 3 y Bil, ochr yn ochr â'r cynigion hynny yn Rhannau 4, 5 a 6 i gryfhau atebolrwydd trwy fesurau perfformiad a llywodraethu newydd yn seiliedig ar hunanasesu, sy'n ymddangos yn gynhwysfawr a thrylwyr. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig, fel y'i hamlinellir yn Rhannau 3, 4, 5, a 6, yn helpu awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n well ar hunanasesu effeithiol, a'i gyfraniad i atebolrwydd yn fewnol rhwng swyddogion ac aelodau etholedig, ac i'r etholaeth leol.

Mae'r gofyniad am adroddiad blynyddol i'r cyngor cyfan wedi'i amlinellu'n syml yn

yr adran hon (Rhan 3), ac fe'i datblygir ymhellach ac yn fanylach yn Rhan 4, adran 68.

Dylid hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd â gwneud penderfyniadau ar bob lefel a bydd y gofyniad i gyhoeddi strategaeth ar gyfranogiad cyhoeddus yn helpu i gryfhau'r ymglymiad hwn. Yn unol ag Erthygl 14 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gallai cyfeirio'n uniongyrchol at y gofyniad i hyrwyddo cyfranogiad plant fod yn ddefnyddiol. Gallai'r ychwanegiad hwn gryfhau ymhellach yr agwedd hon ar y ddeddfwriaeth. Mae strategaethau cyfranogiad plant eisoes ar waith gan lawer o awdurdodau lleol, ynghyd â fforymau lleol i gefnogi'r hawl hwn.

Rhan 4 – Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol

Mae'r gofyniad o dan ran 4 y Bil am adroddiad blynyddol gan y cyngor yn cyfeirio'r ddyletswydd hon tuag at bwyllgor safonau, sy'n adrodd ar weithgarwch dyletswyddau'r cyngor. Dylai'r cyfarwyddyd i'r 'awdurdod perthnasol' ymateb i'r adroddiad hwn o'i bwyllgor safonau wella deialog mewnol yr awdurdod lleol, fel system sy'n gwella'i hunan.

Rhan 5 – Cydweithio gan Brif Gynghorau

Mae'r cynigon yn Rhan 5 am weithredu ar y cyd rhwng cynghorau yn amlinellu proses drefnus ac amodau clir i ddau gyngor neu fwy ddod at ei gilydd i sefydlu cydbwyllgor corfforaethol i arfer swyddogaeth neu swyddogaethau yn ymwneud â phrif feysydd y cynghorau hynny. Hefyd, mae'r cynnig yn amlinellu'n glir sut y gallai Llywodraeth Cymru orchymyn cynghorau i ffurfio cydbwyllgor. Mae Adran 79 (3) (a) (i) yn glir y byddai hyn yn cynnwys gwella addysg.

Mae'r darpariaethau a wneir yn y Bil hwn yn debygol o gynorthwyo awdurdodau lleol yn well i gyflawni eu dyletswyddau gwella ysgolion trwy'r Consortia Rhanbarthol. At hynny, byddai'r darpariaethau hefyd yn galluogi i waith ychwanegol gael ei drosglwyddo i'r Consortia Rhanbarthol, lle y bo'n briodol, yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru.

Mae'r darpariaethau o dan adran 77 (4) (a) a (b) yn codi'r posibilrwydd y gallai prif gyngor ddewis naill ai trosglwyddo swyddogaeth, neu gadw'r swyddogaeth honno. Bydd angen archwilio ac egluro ymhellach y goblygiadau i awdurdodau lleol ac i Consortia Rhanbarthol o ran cyflawni dyletswyddau statudol i wella ysgolion. Mae ein hadroddiadau cyhoeddedig ar waith y consortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion wedi dangos bod sefydlu trefniadau effeithiol ar y cyd yn cymryd amser. Hefyd, mae'n galw am ymrwymiad llawn yr awdurdodau lleol sy'n aelodau. Yn amlwg, bydd y trefniadau arfaethedig yn gosod y math hwn o wasanaeth rhanbarthol ar sylfaen statudol llawer cryfach a chliriach. Trwy gydweithio, gall awdurdodau lleol greu màs critigol o arbenigedd i gynorthwyo â gwella addysg yn fwy effeithiol. Bydd y darpariaethau'n galluogi awdurdodau lleol i nodi'r

awdurdodau partner mwyaf rhesymegol i weithio gyda nhw, sef mewn rhai achosion, grwpiau presennol y Consortia Rhanbarthol.

Byddai'n ddefnyddiol diffinio beth yw ystyr gwasanaethau sy'n gwella addysg. Mae ein tystiolaeth o arolygiadau ysgolion ac awdurdodau lleol yn dangos y rhyngweithio cymhleth rhwng y ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant ysgol a'i disgyblion. Gall amrywiaeth eang o wasanaethau gyfrannu tuag at wella addysg, nad yw pob un ohonynt wedi'u diffinio'n rhan o'r consortia rhanbarthol presennol ar gyfer gwella addysg. Er enghraifft, a fyddai gwasanaethau cymorth ymddygiad, gwasanaethau lles addysg neu wasanaethau i gefnogi anghenion addysgol arbennig yn swyddogaethau y gellid eu cyflwyno trwy gydbwyllgor corfforaethol ar gyfer gwella addysgu?

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol cadarnhau p'un a fydd pwerau Estyn i arolygu awdurdodau lleol o dan adran 38 Deddf Addysg 1997 (<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/44/section/38>) yn berthnasol i unrhyw gydbwyllgor corfforaethol. Er enghraifft, a fyddai angen i ni arolygu ac adrodd ar gyflawni gwella ysgolion gan gydbwyllgor corfforaethol ar wahân i arolygiadau'r awdurdodau lleol sy'n aelodau?

O dan Adran 78 (3) y Bil, byddai'n ddefnyddiol rhestru unrhyw gyrff arolygu perthnasol fel ymgynghoreion statudol.

Rhan 6 – Perfformiad Prif Gynghorau a'u Llywodraethu

Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn sefydliadau myfyriol, sy'n gwella'u hunain. Mae Estyn yn cydnabod cyfraniad y cynigion a amlinellir yn Rhan 6 at atebolrwydd yr awdurdod lleol a'i berfformiad, i'w etholaeth, trwy'r darpariaethau a amlinellir sy'n gofyn bod yr awdurdod lleol yn ymgynghori ar ei berfformiad ac yn adrodd arno. Mae'r rôl i Estyn, fel arolygiaeth, yn glir o ran yr atebolrwydd hwn, trwy'r gofyniad i'r awdurdod lleol anfon copïau o unrhyw adroddiadau, argymhellion a chynlluniau gweithredu iddo.

Dylai'r gofyniad bod yr awdurdod lleol yn cynnal asesiad panel o berfformiad gryfhau ymhellach y craffu ar berfformiad yr awdurdod lleol.

Nid yw'r gofyniad i Estyn, yn deillio o dderbyn y rhain, wedi'i ddatgan yn glir.

Mae Estyn yn cymryd yn ganiataol fod y darpariaethau a wneir o dan adran 94 Pŵer yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal arolygiad arbennig pe na bai'r awdurdod lleol yn bodloni'i gofynion perfformiad, yn cynnwys perfformiad addysg. Yn hynny o beth, canlyniad anfwriadol yw y gallai'r Archwilydd Cyffredinol dorri ar draws dyletswyddau Estyn. Byddai'r darpariaethau o dan adran 94 (7), sy'n gofyn bod yr

Archwilydd Cyffredinol yn anfon copi o'i adroddiad yn dilyn arolygiad arbennig at Estyn, yn fwy effeithiol pe bai'r darpariaethau hyn yn gofyn bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gweithio mewn partneriaeth ag Estyn ynghylch unrhyw arolygiad arbennig sy'n cynnwys dyletswyddau a darpariaethau addysg awdurdod lleol.

Mae Estyn yn croesawu'r adrannau ym mhennod 3 Rhan 6 ynghylch cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr. Mae'r adrannau hyn yn amlinellu'n glir y rhesymeg dros gydgyssylltu o'r fath. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau fel y'u hamlinellir yn cyfeirio at reoleiddwyr ac nid yw Estyn, fel y cyfryw, yn cyflawni rôl reoleiddio; yn hytrach, dyletswyddau arolygiaeth sydd ganddo. Gellid cydnabod y gwahaniaeth rhwng cyrff rheoleiddio ac arolygiaethau yn well yn y bennod hon.

Rhan 7 – Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd

Dim sylw gan Estyn

Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol

Dim sylw gan Estyn

Rhan 9 – Amrywiol

Mae Estyn yn croesawu'r darpariaethau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng arolygwyr a rheoleiddwyr, fel y'u hamlinellir yn adran 156 Rhan 9. Dylai'r ddarpariaeth hon gryfhau ymhellach y cydweithio rhwng y cyrff hyn.